

Cylch Gorchwyl IIGG

1. Trosolwg

- 1.1. Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gangiau sy'n meithrin perthynas amhriodol neu grŵmio (yr Ymchwiliad) wedi'i sefydlu i gydnabod y niwed mawr a brofwyd gan ddiodefwyr a goroeswyr gangiau grŵmio a methiannau gwasanaethau statudol a oedd i fod i'w hamddiffyn.
- 1.2. Mae'r Ymchwiliad hwn yn ymateb i Argymhelliad 2 Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Casey ar Gamfanteisio'n Rhywiol a Cham-drin Plant yn Seiliedig ar Grŵp (Mehefin 2025) (yr "Archwiliad Cenedlaethol"), a alwodd am ymchwiliad cyfyngedig, wedi'i dargedu ac yn gymesur i achosion o fethiannau neu rwystr gan wasanaethau statudol mewn ardaloedd lleol perthnasol. Bydd yn nodi methiannau yn ymarferol ac yn dal i gyfrif yr unigolion a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am y methiannau hynny. Rhaid iddo yrru newid gwirioneddol a pharhaol mewn systemau diogelu a'r system cyfiawnder troseddol ar lefel leol a chenedlaethol, gan sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a bod diodefwyr a goroeswyr yn cael eu rhoi wrth wraidd unrhyw newid yn y dyfodol.
- 1.3. Bydd yr Ymchwiliad yn cymryd agwedd gref at gywiro camgymeriadau'r gorffennol a rhaid iddo sicrhau y bydd sefydliadau ac unigolion yn cael eu dal i gyfrif am fethiannau'r gorffennol. O dan delerau Deddf Ymchwiliadau 2005, nid yw'r Ymchwiliad yn gallu pennu atebolrwydd troseddol neu sifil. Ar gyfer yr holl honiadau troseddol neu dystiolaeth o 1996 hyd at ddiwedd yr Ymchwiliad, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i Operation Beaconport – gweithrediad a argymhellwyd yn Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Casey ac sy'n cael ei oruchwylio gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)).
- 1.4. Gyda'i gilydd bydd yr Ymchwiliad ac Ymgyrch Beaconport yn dod â mwy o droseddwyd i gyfiawnder, yn dal gwasanaethau statudol i gyfrif, yn gweithredu ar gamymddwyn mewn swyddi cyhoeddus, yn sicrhau nad yw sefydliadau yn cael marcio eu gwaith cartref eu hunain a chyflawni cyfiawnder i ddiodefwyr a goroeswyr.
- 1.5. Dyddiad sefydlu'r Ymchwiliad ffurfiol, yn unol ag adran 5(1)(a) o Ddeddf Ymchwiliadau 2005, yw 13 Ebrill 2026.

2. Ffocws ar ddiodefwyr a goroeswyr

- 2.1. Rhaid i ddiodefwyr a goroeswyr fod wrth wraidd dull yr Ymchwiliad, gydag ymgysylltiad a chymorth sy'n seiliedig ar drawma wedi'i ddarparu'n briodol, ochr yn ochr â ffocws ar gyflawni canlyniadau sy'n ymateb i anghenion diodefwyr a goroeswyr o fewn yr amserlenni penodedig. Rhaid i'r Ymchwiliad ystyried lle bu triniaeth negyddol hirdymor o ddiodefwyr a goroeswyr a'i effaith barhaus arnynt, eu plant a'u teuluoedd.
- 2.2. Rhaid i'r Ymchwiliad fod yn glir ac yn agored. Er mwyn sicrhau bod lleisiau diodefwyr a goroeswyr yn cael eu clywed ac yn ganolog i'r Ymchwiliad,

rhaid datblygu Siarter Dioddefwyr a Goroeswyr. Rhaid i'r Ymchwiliad weithio gyda dioddefwyr a goroeswyr i ddatblygu'r Siarter hon a fydd yn nodi ymrwymiad yr Ymchwiliad i ddiodefwyr a goroeswyr ar sut y byddant yn ymgysylltu drwy gydol yr Ymchwiliad. Rhaid i'r Siarter Dioddefwyr a Goroeswyr gynnwys y ffyrdd y gall pob diodefwyr a goroeswr rannu eu profiad a'u tystiolaeth gyda'r Ymchwiliad i lywio ei waith p'un a ydyn nhw mewn ardal ymchwilio leol neu beidio.

- 2.3. Rhaid i'r ymgysylltiad fod yn gynhwysol ac yn gynrychioladol. Rhaid cydnabod nad yw diodefwyr a goroeswyr i gyd yr un fath, y gallant fod â phrofiadau a nodweddion gwahanol, a byddant wedi cymryd rhan mewn cam-drin a chamfanteisio trwy wahanol lwybrau. Rhaid i hyn gynnwys (ond ni ddylai fod yn gyfyngedig i) yr Ymchwiliad sy'n cydnabod ymbincio, cam-drin a chamfanteisio sy'n digwydd yn bersonol, ar-lein, trwy fasnachu plant, a thrwy ecsbloetio troseddol. Rhaid i'r Ymchwiliad hefyd gydnabod y bydd gan ddiodefwyr a goroeswyr ystod o nodweddion, gwahanol ffactorau risg a gwendidau a allai fod wedi chwarae i mewn i'r cam-drin neu'r ymateb i'r cam-drin hwnnw. Bydd gwendidau plant mewn gofal a gofal preswyl yn cael eu hystyried yn ofalus gan yr Ymchwiliad gan eu bod yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol a cham-drin plant yn seiliedig ar grŵp. Rhaid i ymgysylltu gynnwys diodefwyr a goroeswyr ledled Cymru a Lloegr.

3. Gangiau Grŵmio

- 3.1. Rhaid i'r Cadeirydd a'r Panel sicrhau bod gwaith yr Ymchwiliad yn canolbwyntio'n benodol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp a gyflawnir gan 'gangiau grŵmio, fel y disgrifir yn yr Archwiliad Cenedlaethol.
- 3.2. Mae camfanteisio'n rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol ar sail grŵp yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, sy'n cynnwys dau neu fwy o droseddwr sy'n gysylltiedig trwy gymdeithasau ffurfiol neu anffurfiol sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol a cham-drin plant neu'n hwyluso. Gall y cyfranogiad hwn fod ar sawl ffurf, gan gynnwys cyflwyno plant i eraill at ddibenion ecsbloetio, masnachu plentyn at gamfanteisio'n rhywiol, cymryd taliad am weithgarwch rhywiol gyda phlentyn, neu ganiatáu i fangre gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

4. Pwrpas ac Amcanion

- 4.1. Gan adeiladu ar waith yr Archwiliad Cenedlaethol, bydd yr Ymchwiliad hwn yn nodi ac yn taflu goleuni ar fethiannau mewn ymatebion blaenorol a chyfredol i fynd i'r afael â gangiau grŵmio yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd yn edrych ar dystiolaeth o'r ymateb mewn ardaloedd lleol ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â rôl y llywodraeth a systemau cenedlaethol yn yr ymateb hwnnw. Rhaid i unrhyw ymchwiliadau gan yr Ymchwiliad gynnwys lle mae pethau wedi mynd o'i le mewn perthynas â diodefwyr a goroeswyr nad ydynt yn byw yn ardal yr ymchwiliad, er enghraifft lle cawson nhw eu masnachu.
- 4.2. Rhaid i'r Ymchwiliad edrych ar fethiannau systemig, sefydliadol ac unigol, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau ar lefel genedlaethol a lleol fel sydd yn briodol. Rhaid i hyn gynnwys edrych ar driniaeth diodefwyr a

goroeswyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu camdriniaeth, gan gynnwys unrhyw ddiffyg cymorth a gynigir iddyn nhw gan wasanaethau statudol ac unrhyw driniaeth negyddol barhaus ar draws cenedlaethau. Rhaid i'r Ymchwiliad hefyd asesu a yw barn gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn gwasanaethau statudol ac unrhyw ddiwylliant o fewn y gwasanaethau hynny wedi effeithio'n negyddol ar sut roedd dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu gweld gan weithwyr proffesiynol, a thriniaeth y dioddefwyr a'r goroeswyr, eu plant a'u teuluoedd. Rhaid i'r Ymchwiliad nodi methiannau mewn ymddygiadau ac arferion a allai fod wedi bod yn gyfystyr â diffyg gweithredu bwriadol neu anfwriadol neu guddio camgymeriadau neu gamymddwyn. Rhaid i'r Ymchwiliad ddal i gyfrif unigolion, sefydliadau a gwasanaethau statudol sy'n gyfrifol am y methiannau hynny. Ni fydd yn rhan o swyddogaeth yr Ymchwiliad i benderfynu ar atebolrwydd sifil neu droseddol unigolion a enwir neu wasanaethau statudol. Ar gyfer yr holl honiadau troseddol a thystiolaeth o'r Ymchwiliad rhwng 1996 a diwedd yr Ymchwiliad, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i Operation Beaconport, dan oruchwyliaeth yr NCA. Lle yw'n briodol, caiff y Cadeirydd a'r Panel ofyn i arolygiaethau cenedlaethol gefnogi gwaith yr Ymchwiliad.

- 4.3. Rhaid i'r Ymchwiliad archwilio'r ffactorau a ganiataodd neu achosodd ecsbloetio a cham-drin i ddigwydd ac nad ydynt yn mynd i'r afael â nhw ar lefel leol a chenedlaethol - gan gynnwys rôl ethnigrwydd, crefydd a diwylliant troseddwy'r a dioddefwyr. Rhaid i hyn gynnwys archwilio ymateb cyrff statudol ac unrhyw faterion o wadu, fel y trafodwyd yn yr Archwiliad Cenedlaethol.
- 4.4. Dylai'r Ymchwiliad ystyried canfyddiadau ymchwil newydd a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref mewn ymateb i [Argymhelliad 10 o'r Archwiliad Cenedlaethol](#), a fydd yn archwilio'n benodol rôl ethnigrwydd, crefydd a diwylliant, wrth ystyried y ffactorau sy'n gyrru ac yn galluogi camfanteisio a cham-drin rhywiol ar blant mewn grŵp.
- 4.5. Er mwyn cyflawni ei bwrpas, bydd yr Ymchwiliad yn cyflawni'r amcanion ffocws canlynol trwy ymchwiliadau lleol ac adolygiad cenedlaethol. Gall ymchwiliadau lleol fod ar sawl ffurf gan gynnwys gwrandawiadau lleol, ymchwil ysgrifenedig a choladu tystiolaeth, casglu a dadansoddi data.

4.6. Ymchwiliadau lleol

- 4.6.1. Amcan yr ymchwiliadau lleol yw nodi methiannau mewn sefydliadau, systemau a gweithdrefnau, a methiannau gan arweinwyr unigol, wrth amddiffyn plant rhag gangiau ymbincio o fewn ardaloedd lleol, a gwneud argymhellion ar gyfer newid a gwella ar unwaith a hirdymor lle bo angen. Ar gyfer pob ymchwiliad lleol, rhaid i'r Cadeirydd a'r Panel nodi'r cyfnod hanesyddol y bydd yr ymchwiliad lleol hwnnw'n canolbwyntio arno, yn unol â'r dystiolaeth y maent wedi'i derbyn. Mae natur yr ymchwiliadau lleol yn golygu y gall yr Ymchwiliad ofynnol i unrhyw ardal ymgymryd â ffurfiau amgen o adolygu a chasglu a dadansoddi data ochr yn ochr ag ymchwiliadau lleol mwy ffurfiol mewn ardaloedd penodol.

- 4.6.2 Yn benodol, rhaid i'r Ymchwiliad ystyried (fel y penderfynwyd gan y

Cadeirydd a'r Panel ar gyfer pob ymchwiliad lleol):

- Natur, digonolrwydd a phrydlondeb ymatebion gwasanaeth statudol (ar unwaith a hirdymor) i achosion a amheuir neu wedi'u cadarnhau o gangiau grŵmio;
- Colli cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth, amddiffyn a chydweithredu effeithiol;
- Yr ymateb i, a'r effaith ar, unigolion a adroddodd droseddau gang grŵmio, gan gynnwys dioddefwyr, goroeswyr, a gweithwyr proffesiynol;
- Sut roedd gwahanol ffactorau risg a gwendidau yn chwarae i mewn i'r cam-drin neu'r ymateb i'r cam-drin hwnnw;
- P'un a oedd ethnigrwydd, crefydd neu ddiwylliant yn chwarae rhan yn yr achosion a'r ymateb; ac
- I ba raddau y mae methiannau a nodwyd wedi arwain at newidiadau mewn ymarfer, polisi neu ddeddfwriaeth, ac a yw'r newidiadau hynny wedi bod yn effeithiol

4.6.3 Mewn unrhyw ardal leol, gall hyn gynnwys archwilio gweithredoedd y gwasanaethau statudol canlynol a sefydliadau cysylltiedig (fel y penderfynir gan y Cadeirydd a'r Panel; gall y Cadeirydd a'r Panel benderfynu ar unrhyw adeg y dylid archwilio gwasanaethau statudol ychwanegol neu sefydliadau cysylltiedig ar sail tystiolaeth newydd):

- Lleoliadau addysg
- Gwasanaethau ieuencid a chymunedol, gan gynnwys Timau Troseddau Ieuencid
- Sefydliadau a sefydliadau crefyddol
- Sefydliadau gwirfoddol neu'r trydydd sector, megis sefydliadau cymorth i ddioddefwyr
- Partneriaethau aml-asiantaeth, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Diogelu Lleol (a'u rhagflaenwyr)
- Byrddau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru
- Awdurdodau lleol (gan gynnwys gofal cymdeithasol plant, cartrefi plant, gwasanaethau teuluol, gwasanaethau tai, trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat, parciau a gwasanaethau cydlyniant cymunedol)
- Gwasanaethau iechyd (ysbytai, ysbytai cymunedol, meddygon teulu)
- Gwasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys CAMHS)
- Gwasanaethau cyngor iechyd rhywiol a beichiogrwydd
- Lluoedd yr heddlu
- Y System Cyfiawnder Troseddol ehangach (gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron)
- Arolygiaethau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol
- Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4.6.2. Rhaid i'r Ymchwiliad wneud atgyfeiriadau at gyrff proffesiynol perthnasol, fel y bo'n briodol, lle amheuir methiannau i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau. Ar gyfer pob honiad troseddol neu

dystiolaeth, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i Operation Beaconport, sy'n cael ei oruchwylio gan yr NCA.

4.7. Adolygiad Cenedlaethol

4.7.1. Nodi argymhellion ar lefel genedlaethol ar gyfer newid yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i'r argymhellion hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth o ymchwiliadau lleol, gwrandawiadau lleol, adolygiadau a chasglu a dadansoddi data. Rhaid hefyd iddyn nhw gael eu llywio gan y materion hynny a aed i'r afael â nhw eisoes gan yr Archwiliad Cenedlaethol, yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, neu ymrwymadau eraill y llywodraeth.

4.7.2 Pan fydd ymchwiliadau lleol yn dod o hyd i enghreifftiau o fethiant mecanweithiau atebolrwydd gwleidyddol neu sefydliadol, dylid ystyried ble mae'r achosion hynny'n berthnasol ar draws Cymru a Lloegr gyfan a chynnig argymhellion gweithredadwy i fynd i'r afael â'r methiannau hynny a'u cywiro.

5. Cwmpas

5.1. Bydd yr Ymchwiliad yn ymdrin â Chymru a Lloegr. Os bydd yr Ymchwiliad yn dod o hyd i unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, bydd yn eu trosglwyddo i'r awdurdodau perthnasol lle bynnag y bo modd. Bydd yr Ymchwiliad yn cysylltu â'r ymchwiliad cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban ym mis Chwefror 2026, i ymateb yr Alban i gam-drin a chamfanteisio plant yn rhywiol mewn grŵp, er mwyn sicrhau ffyrdd priodol o weithio lle mae materion trawsffiniol yn codi.

5.2. Ni fydd yr Ymchwiliad yn mynd i'r afael â honiadau sy'n ymwneud â digwyddiadau yn y Tiriogaethau Tramor neu Dibyniaethau'r Goron. Fodd bynnag, bydd unrhyw honiadau o'r fath a dderbynnir gan yr Ymchwiliad yn cael eu cyfeirio at y cyrff gorfodi'r gyfraith perthnasol yn yr awdurdodaethau hynny.

5.3. Nid yw ecsbloetio o reidrwydd yn digwydd mewn un lleoliad. Bydd unrhyw honiadau o ecsbloetio a cham-drin sy'n croesi ffiniau awdurdodaeth yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdodau perthnasol lle bynnag y bo modd.

5.4. At ddibenion yr Ymchwiliad hwn ystyr "plentyn" yw unrhyw un o dan 18 oed. Fodd bynnag, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried materion mewn perthynas â chamfanteisio ar unigolion dros 18 oed, os yw'r cam-drin hwnnw wedi dechrau pan oedd yr unigolyn yn blentyn.

5.5. Rhaid i'r Ymchwiliad archwilio materion sy'n codi rhwng 1 Ionawr 1996 a 31 Mawrth 2029. Efallai bydd gwybodaeth mae'r Ymchwiliad yn ei dderbyn tu allan i'r dyddiadau hyn yn dal i gael ei hystyried fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ehangach a'r adroddiadau terfynol.

5.6. Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried pa ardaloedd lleol i'w hadolygu. Bydd y meini prawf a ddefnyddir i ddewis ardaloedd lleol yn cael eu cyhoeddi gan yr Ymchwiliad o fewn tri mis i'r dyddiad sefydlu ffurfiol a byddant yn cael eu

llywio gan gyfuniad o ffactorau gan gynnwys profiadau dioddefwyr a goroeswyr, a thystiolaeth o achosion, niwed a risg. Rhaid i'r Ymchwiliad beidio ag ystyried bod absenoldeb achosion wedi'u nodi mewn ardal leol yn golygu nad oes unrhyw niwed yn cael ei wneud yno – dylid ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth ddewis ardaloedd lleol. Gall y Cadeirydd a'r Panel benderfynu ar gyfer unrhyw ardal leol bod angen gwrandawiadau cyhoeddus, ond mewn ardaloedd eraill efallai na fydd eu hangen. Ym mhob achos, rhaid i'r Ymchwiliad fod yn sensitif i'r effaith ar ddioddefwyr a goroeswyr.

6. Llywodraethiant

- 6.1. Bydd yr Ymchwiliad yn cael ei arwain gan Gadeirydd a dau Banelydd, a benodir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005.
- 6.2. Gall y Cadeirydd hefyd benodi aseswyr neu gynghorwyr i gynorthwyo gyda gwaith yr Ymchwiliad.
- 6.3. Yn ogystal â'u rolau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, dylai'r Cadeirydd a'r Panel yn benodol:
 - Goruchwylio perthynas yr Ymchwiliad ag Ymgyrch yr Heddlu Cenedlaethol (Operation Beaconport);
 - Gweithio gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith i lunio mecanwaith i ganiatáu rhannu gwybodaeth rhagweithiol rhwng partneriaid gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys Operation Beaconport, a'r Ymchwiliad;
 - Ystyried sut bydd tystiolaeth dioddefwyr a goroeswyr yn llywio gwaith yr Ymchwiliad, trwy ymgysylltiad ystyrlon ac ymarfer sy'n seiliedig ar drawma; a
 - Ceisio cyflawni'r defnydd mwyaf effeithlon o amser ac adnoddau, gan gadw'r gost i'r lleiafswm posibl, ac arwain at gasgliadau o fewn yr amser byrraf posibl
- 6.4. Wrth ymgymryd â'i waith, gall yr Ymchwiliad, lle bo angen ac yn briodol, ymgysylltu â materion sy'n croestorri ag ymchwiliadau troseddol parhaus. Rhaid i'r Ymchwiliad gymryd pob cam angenrheidiol i osgoi rhagfarnu ymchwiliadau o'r fath, gan gynnwys cysylltu â chyrff gorfodi'r gyfraith perthnasol. Mae gwaith yr Ymchwiliad yn cael ei gynnal o dan awdurdod ei Gylch Gorchwyl ac nid ei fwriad yw ymyrryd neu ddisodli achosion troseddol. Pan fod yna linellau ymchwilio na all yr Ymchwiliad eu dilyn o fewn yr amserlenni a sefydlwyd gan y Cylch Gorchwyl hyn, o ganlyniad i achosion troseddol parhaus, dylid nodi hyn yn yr adroddiad perthnasol ond ni ddylai hyn oedi cyflwyno'r adroddiad hwnnw mewn da bryd.
- 6.5. O fewn chwe mis i ddyddiad sefydlu'r Ymchwiliad ffurfiol, dylai Operation Beaconport a'r Ymchwiliad gyhoeddi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) ar y cyd. Rhaid i'r ddogfen hon nodi'r egwyddorion, protocolau a mecanweithiau ar gyfer cydweithio rhwng yr Ymchwiliad a chydweithwyr plismona.

6.6. Bydd yr Ymchwiliad yn gweithredu am ddim mwy na thair blynedd, o fewn cyllideb o £65 miliwn. O fewn tri mis i'r dyddiad sefydlu ffurfiol, rhaid i'r Cadeirydd a'r Panel benderfynu beth sy'n rhaid ei gyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb hon (a dyddiadau ar gyfer y cyflawniadau hynny) a chytuno ar yr asesiad hwnnw gyda'r Ysgrifennydd Cartref.

6.7. Rhaid adolygu'r Cylch Gorchwyl hyn yn flynyddol rhwng yr Ysgrifennydd Cartref a'r Cadeirydd a'r Panel, gydag ymgynghori â Gweinidogion Cymru fel y bo'n briodol, gan gynnwys i adolygu'r cynnydd a sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu cyflawni o fewn y gyllideb ac o fewn amser. Os yw amserlenni neu gyllideb mewn perygl, mae gan y Cadeirydd a'r Panel ddyletswydd i roi cynigion i'r Ysgrifennydd Cartref i unioni hynny.

7. Argymhellion ac adroddiadau

7.1. Bydd yr Ymchwiliad yn cyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer pob ymchwiliad lleol (fel y nodir yn adran 4.6) yn unol â'r amserlen y cytunwyd arno ac yn cyd-fynd â'r amcanion a nodir uchod. Rhaid i'r adroddiadau ymchwilio lleol hyn fod ar gael i'r cyhoedd.

7.2. Rhaid i'r Ymchwiliad fynd ymlaen ar gyflymdra digonol i sicrhau y gellir gweithredu ei argymhellion yn gyflym ac yn effeithiol.

7.3. Caiff yr Ymchwiliad gyhoeddi adroddiadau interim a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn ystod ei gyfnod o dair blynedd mewn perthynas ag ymchwiliadau lleol (fel y nodir yn adran 4.6), a chanfyddiadau cenedlaethol fel bydd y Cadeirydd a'r Panel yn ystyried yn briodol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Ysgrifennydd Cartref erbyn 31 Mawrth 2029.

7.4. Rhaid llywio argymhellion lleol a chenedlaethol trwy ymgynghori â'r awdurdodau sydd fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am eu gweithredu.

7.5. Rhaid rhannu unrhyw adroddiadau o'r Ymchwiliad neu'r diweddariadau angenrheidiol hefyd â Phrif Weinidog Cymru fel sy'n briodol.